RHWYDWAITH ARDDANGOS
DEMONSTRATION NETWORK



*"Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur iawn i'n swyddogion technegol yng nghanolbarth a de ddwyrain Cymru. Maen nhw wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n safleoedd arddangos newydd i gynllunio prosiectau newydd a chyffrous i'ch ysbrydoli. Cadwch lygad am ddiweddariadau ar ein prosiectau ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol".*

- Dewi Hughes, Rheolwr Technegol

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

## CANOLBWYNTIO AR Y TRAED ar safle arddangos Graig Olway

Nod y prosiect ar fferm Graig Olway, Brynbuga, fydd i gyflwyno Rhaglen Traed Iach AHDB Llaeth, ac asesu'r effaith ar gloffni a symudedd yn y fuches. Yn seiliedig ar ddata presennol ar glwyfau ar safle Graig Olway, bydd triniaeth 'blitz' yn cael ei defnyddio ar gyfer dermatitis digidol (DD). Bydd monitro'r ymateb i'r dull hwn yn sylfaen i greu'r astudiaeth achos gyntaf o'i fath mewn buches odro robotaidd.

**PRIF DDANGOSYDDION PERFFORMIAD:** **1)** Lleihau % Cloffni i <10% *(39% ar hyn o bryd)* **2)** Lleihau % DD i <10% *(39% ar hyn o bryd)*

**FFAITH AM Y FFERM:** Yn 2013, gosodwyd tri robot ar gyfer godro ac mae'r 170 o wartheg Holstein cynhyrchiol sy'n cael eu cadw dan do yn rhan o'r system hon. Mae gwartheg yn ymweld â'r robot 3.2 gwaith ar gyfartaledd mewn cyfnod o 24 awr.

### Rheoli newid – o wartheg sugno i wartheg bîff o'r diwydiant llaeth

Mae prosiect newydd wedi dechrau'n ddiweddar ar fferm Cefn Llan, safle arddangos ger Llangammarch. Nod y prosiect yw archwilio dichonolrwydd newid o fenter draddodiadol yn cadw gwartheg sugno i fagu, tyfu a phesgi lloi Angus croes o'r diwydiant llaeth, gyda'r nod o wneud hynny ar system yn seiliedig ar laswellt a phorthiant ar gost isel. Yn ogystal, bydd monitro a rheoli costau yn agwedd allweddol o'r prosiect.

### Cynyddu gwerth porthiant a dyfir gartref gyda meillion

Mae prosiect newydd sbon yn canolbwyntio ar gynyddu gwerth porthiant a dyfir gartref gyda meillion wedi dechrau'n ddiweddar ar safle arddangos Cefngwilgy Fawr yn Llanidloes. Mae amcanion y prosiect yn cynnwys:

1. Lleihau faint o ddwysfwyd a brynir drwy gynyddu ansawdd porthiant.
2. Lleihau faint o wrtaith artiffisial a ddefnyddir drwy gynyddu buddion meillion o ran maeth.
3. Gwella pwysau a dyddiadau pesgi ŵyn trwy wella opsiynau pori.

### Edrych ar ddulliau o ychwanegu elfennau hybrin ar Fferm Pentre

Mae prosiect sy'n edrych ar ychwanegu elfennau hybrin ar waith ar hyn o bryd ar Fferm Pentre, Llansoe, Brynbuga. Nod y prosiect yw cymharu gwahanol ddulliau o ychwanegu elfennau hybrin a'u heffaith ar gynnydd pwysau byw'r ŵyn.

#### Amserlen y Prosiect ar fferm Pentre

| Tach 2019 | Tach 2019 | Tach 2019 | Ion 2020 | Maw 2020 | Tach 19 - Maw 20 | Ebr 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 150 o ŵyn stôr a brynwyd i mewn yn cael eu rhannu'n 3 grŵp o 50 (gan ddefnyddio system ddethol rhifau ar hap). | Bydd samplau gwaed yn cael eu cymryd gan 5 oen o bob grŵp i brofi lefelau copr, cobalt a seleniwm. | - Grŵp 1 yn derbyn ychwanegion elfennau hybrin yn fisol drwy'r geg, sydd ar gael yn fasnachol<br>- Grŵp 2 i dderbyn bolws ŵyn Downland Essential<br>- Grŵp 3 i dderbyn bolws Carrs Billington Ovi-trace | Bydd samplau gwaed yn cael eu cymryd gan yr un 5 oen o bob grŵp i weld a yw'r lefelau elfennau hybrin wedi cynyddu/aros yr un fath fel y mae'r cynhyrchion yn ei honni. | Bydd samplau gwaed yn cael eu cymryd gan yr un 5 oen o bob grŵp i weld a yw'r lefelau elfennau hybrin wedi cynyddu/aros yr un fath fel y mae'r cynhyrchion yn ei honni. | Bydd pwysau byw'r holl ŵyn yn y grwpiau'n cael eu monitro bob pythefnos. Bydd ŵyn yn cael eu monitro'n ofalus trwy gydol y prosiect i gadw llygad am unrhyw broblemau iechyd a lles sy'n gysylltiedig â'r prosiect, neu ar wahân i'r prosiect. | Bydd yr holl ddata a gasglwyd yn ystod y prosiect yn cael ei ddadansoddi a bydd cynnydd pwysau byw'r ŵyn yn cael ei gymharu a'i gyferbynnu. |

## Cyswllt Ffermio - Diweddariad

Yn dilyn y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â Coronavirus, mae pob digwyddiad agored a digwyddiadau gyda nifer o fynychwyr Cyswllt Ffermio wedi eu gohirio hyd ddiwedd mis Mai o leiaf. Gweler ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadwch lygad ar y datblygiadau a'r canlyniadau diweddaraf am y prosiectau trwy fynd i'n gwefan a'n dilyn ar gyfryngau cymdeithasol.

**www.llyw.cymru/cyswlltffermio**